OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 631 (Cy.88)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Menai (Diddymu) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Chwefror 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2012* |

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ("y Ddeddf") ac sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru(**2**).

Yn unol ag adran 27(2) o'r Ddeddf, mae Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Llandrillo(**3**) wedi cydsynio i drosglwyddiad eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Menai(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Menai yn unol ag adran 27(7) o'r Ddeddf.

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Menai (Diddymu) 2012, a daw i rym ar 1 Ebrill 2012.

### Diddymu a throsglwyddo

**2.** Ar 1 Ebrill 2012, diddymir Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Menai, a throsglwyddir ei heiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Llandrillo, corff

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 27 gan O.S. 2005/3238 (Cy. 243), erthygl 9 ac Atodlen 1, paragraffau 13 ac 16; a chan O.S. 2010/1080, erthygl 2 ac Atodlen 1, paragraffau 18 a 19.

(**2**) Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Y'i sefydlwyd fel Coleg Technegol Llandrillo gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097). Cafodd yr enw ei newid yn Goleg Llandrillo yn effeithiol o 1 Awst 1994.

(**4**) Y'i sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1994 (O.S. 1994/1449).

corfforaethol a sefydlwyd at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol.

**Trosglwyddo staff**

**3.** Mae Adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson a gyflogir gan Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Menai yn union cyn 1 Ebrill 2012, fel pe bai'r cyfeiriadau yn yr adran honno at—

(a) berson y mae'r adran honno'r gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson a gyflogir fel hynny;

(b) y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 1 Ebrill 2012;

(c) y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Menai; ac

(ch) y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Llandrillo.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

29 Chwefror 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu, yn effeithiol o 1 Ebrill 2012, y gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i redeg y sefydliad addysgol a elwir yn Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Menai. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo'i heiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Llandrillo, ac yn diogelu hawliau ei gweithwyr drwy gymhwyso, gydag addasiad, adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13).